

No.

PWYLLGOR TRWYDDEDU DIOGELWCH CYHOEDDUS

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd, 2021

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J.W. Thomas (Cadeirydd); Cynghorydd P. Drake (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J. Aviet, J.E. Charles, V.P. Driscoll, O. Griffiths, K.F. McCaffer, M.J.G. Morgan, R. Nugent-Finn ac S.T. Wiliam.

542 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr R. Crowley, A. Moore, J.M. Norman, M.R. Wilkinson ac M. Wright.

543 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi, 2021 fel cofnod cywir.

544 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

545 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

546 PENDERFYNU AR ADNEWYDDU TRWYDDEDAU GYRRU HACNI A GYRWYR LLOGI PREIFAT – W (CAT) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12, 13 A 14) –

Gofynnwyd i'r Pwyllgor benderfynu a oedd W yn berson addas a phriodol i ddal Trwyddedau Gyrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Llogi Preifat Bro Morgannwg. Roedd W yn bresennol i gefnogi'r cais ac roedd aelod o'r teulu cefnogol a chynrychiolydd o'i undeb llafur gydag ef.

Rhoddodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu grynodedb o'r adroddiad a oedd yn rhoi manylion am nifer o fethiannau gan W i hysbysu'r Awdurdod Lleol am droseddau goryrru, methiant i ddatgelu troseddau perthnasol blaenorol wrth wneud cais am y

No.

Trwyddedau dan sylw, a hanes o gynnal a chadw gwael o ran cerbyd W pan fyddai'n cael ei gyflwyno ar gyfer profion MOT neu brofion cydymffurfio ar ochr y ffordd gan Swyddogion. Roedd sawl geirda cymeriad wedi'u cyflwyno i gefnogi cais W a'u dosbarthu i'r Aelodau i'w hystyried cyn y cyfarfod.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog o'r adroddiad, gwahoddodd y Cadeirydd W, aelod o'i deulu a chynrychiolydd yr undeb llafur i annerch y Pwyllgor er mwyn gwneud sylwadau llafar ynghylch y digwyddiadau a ddisgrifir yn yr adroddiad, a rhoddwyd manylion i'r Pwyllgor ynghylch amgylchiadau personol lliniarol W.

Yn dilyn hynny, holodd aelodau'r Pwyllgor W a'i aelod o'r teulu ategol mewn perthynas â chynnwys eu sylwadau a'r adroddiad, a gofynnodd am eglurder ar nifer o faterion cyfredol a hanesyddol. Yn dilyn hyn, gwnaeth W, ei aelod o'i deulu, ei gynrychiolydd undeb llafur, Rheolwr y Tîm Trwyddedu a'r Uwch Swyddog Gorfodi Trwyddedu ddatgysylltu o'r cyfarfod a gadael, a gwnaeth y Pwyllgor drafod y mater yn breifat.

Yn dilyn trafodaethau'r Pwyllgor, ailgysylltodd pob parti â'r cyfarfod er mwyn cael gwybod am benderfyniad y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD – Nad oedd y Pwyllgor yn fodlon bod W yn berson addas a phriodol i ddal Trwyddedau Gyrrwr Cerbydau Hacni a Cherbydau Llogi Preifat, a dylid gwrthod y cais i adnewyddu'r Drwydded Yrru.

Rhesymau dros y penderfyniad

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan Swyddogion Trwyddedu, y safonau a fabwysiadwyd gan Gyngor Bro Morgannwg (yr awdurdod) a ddisgwylir gan yrwyr tacsï i hyrwyddo diogelwch y cyhoedd, yr amodau sydd ynghlwm wrth bob trwydded yrru a gyhoeddir gan yr awdurdod, y ddarpariaeth o fewn Darpariaethau Amrywiol Llywodraeth Leol Deddf 1976 a nododd "Ar yr amod na fydd cyngor dosbarth yn rhoi trwydded oni bai ei fod yn fodlon bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded yrru", y lliniaru a gynigir gan yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd undeb a'r cyfeiriadau cymeriad a ddsosberthir i aelodau trwy e-bost.

Roed Aelodau yn pryderu am ymddygiad blaenorol W, yn enwedig y patrwm o droseddau am oryrru a pheidio â hysbysu'r awdurdod am y troseddau hyn, fel sy'n ofynnol gan yr amodau sydd ynghlwm wrth ei drwydded. Roedd hyn er gwaethaf rhybudd terfynol a roddwyd gan y Pwyllgor Trwyddedu yn 2017 a rhybudd pellach a roddwyd gan Swyddogion ar 6 Hydref 2020. Cafwyd trosedd arall ym mis Tachwedd 2020.

Roedd Aelodau hefyd yn pryderu oherwydd ar y ffurflen gais a'i hystyriwyd ar hyn o bryd yng nghwestiwn 8b, a ofynnodd a oedd yr ymgeisydd wedi cael rhybudd neu euogfarn o unrhyw drosedd foduro neu wedi derbyn unrhyw fath o hysbysiad cosb benodedig ers ei gais diwethaf, atebwyd 'dim' a llofnodwyd y ffurflen gan W.

Roedd hefyd gan W hanes o gynnal a chadw gwael ar ei gerbyd mewn profion MOT ac wrth gael ei wirio gan Swyddogion yn cynnal gwiriadau cydymffurfio ar

No.

ochr y ffordd. Roedd pryder penodol yn ymwneud â nifer o broblemau gyda theiars a oedd wedi'u treulio'n beryglus, a oedd yn amlwg yn ddyletswydd ar y gyrrwr i wirio arnynt yn rheolaidd.

Cymerodd Aelodau'r lliniaru a gyflwynwyd gan W mewn i ystyriaeth ac roeddent yn gydymdeimladol, ond y prawf a ddefnyddiwyd gan Aelodau i asesu ffitrwydd a phriodoldeb ymgeisydd am Drwyddedau Gyrrwr Cerbydau Hacni a Llogi Preifat oedd: -

"A fydddech chi (fel aelod o'r Pwyllgor Trwyddedu neu berson arall sy'n gyfrifol am y gallu i roi Trwydded Gyrru Hacni a Gyrrwr Llogi Preifat) yn caniatáu eich mab neu ferch, priod neu bartner, mam neu dad, wŷr neu wyres, neu unrhyw un arall y person rydych chi'n gofalu amdano, i fynd i mewn i gerbyd gyda'r person hwn "

Prif bryder y Pwyllgor Trwyddedu Diogelwch Cyhoeddus oedd diogelwch y cyhoedd a, gyda hynny mewn golwg a gan ddefnyddio'r prawf uchod, cytunodd Aelodau yn unfrydol nad oeddent yn ystyried bod W yn berson addas a phriodol i ddal Trwyddedau Gyrrwr Cerbyd Hacni a Llogi Preifat.

Hysbysodd y Cadeirydd W fod ganddo'r hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i Lys Ynadon Caerdydd a'r Fro cyn pen 21 diwrnod ar ôl y penderfyniad hwn.